# RICHARD ap JOHN, o Sgorlegan, plwyf Llangynhafal, sir Ddinbych (fl. 1578-1611), g r bonheddig, prydydd, noddwr bardd, a chopïydd llawysgrifau

**Enw:** Richard ap John
**Priod:** Sian ferch James
**Priod:** Alis wraig Richard ap John
**Plentyn:** Blaens ferch Richard ap John
**Plentyn:** Margred ferch Richard ap John
**Plentyn:** Dorithi ferch Richard ap John
**Plentyn:** Simwnt ap Richard ap John
**Plentyn:** John Llwyd ap Richard ap John
**Plentyn:** Thomas ap Richard ap John
**Plentyn:** John Wyn ap Richard ap John
**Plentyn:** Edwart ap Richard ap John
**Plentyn:** Robert Wyn ap Richard ap John
**Rhiant:** Margred ferch Gruffudd ab Edwart
**Rhiant:** John Wyn ap Robert ap Gruffudd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** g r bonheddig, prydydd, noddwr bardd, a chopïydd llawysgrifau
**Cartref:** Sgorlegan
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Dyngarwch; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan David Jones

Olrheiniai ei ach drwy Edwin ap Grono i Hywel Dda a Rhodri Mawr. Yr oedd ei dad, John Wyn ap Robert ap Gruffudd, yn waetiwr yn Ewri'r Frenhines, ond bu farw o'r pla cyn i'r plant, Richard, John Wyn, a Chatrin, ddyfod i'w hoed; canwyd ei farwnad gan Lewis ab Edwart a Gruffudd Hiraethog. Ymddengys i'r plant, a'u mam, Margred ferch Gruffudd ab Edwart o Blas y Bwld, ddychwelyd i Sgorlegan. Bu'r taid, Robert ap Gruffudd, farw yn 1572 (marwnad gan Simwnt Fychan), a dilynwyd ef yn Scorlegan gan ei yr, Richard ap John. Priododd yntau Alis ferch y Richard Thelwall o Blas y Ward a fu farw yn eisteddfod Caerwys, 1568. Bu hi farw 25 Tachwedd 1584, gan adael naw o blant, Robert Wyn, Edwart, John Wyn, Thomas, John Llwyd, Simwnt, Dorithi, Margred, a Blaens (marwnadau gan Simwnt Fychan ac Edwart ap Raff). Yn ôl Robert Vaughan priododd Richard ap John eilwaith, â Sian ferch James, a bu iddo blant ohoni hithau. Priodolir i Richard ap John drosiad mydryddol Cymraeg yn 1586 o *The Boke of John Maundeville*. Ceir copïau ohono yn llawysgrifau N.L.W. 1553 a Pen. 218. Y mae carol o'i waith yn B.M. Add. MS. 9817. Yr oedd traddodiad prydyddu yn y teulu, ac yr oedd ei ewythr, Edward Wyn, un o aldramyn Rhuthyn, a fu farw yn 1578, yn fardd da yn ôl marwnad a ganodd Edwart ap Raff iddo. Erys copïau Richard ap John o ramadegau'r beirdd (Pen. 159-60), Brut y Tywysogion, gydag ychwanegiadau o ffynonellau Seisnig (Llanstephan MS 172), a chasgliadau o farddoniaeth (Llanstephan MS 36 a Chaerdydd 63). Ysgrifennwyd y llawysgrifau hyn rhwng 1578 a 1611. Y mae ganddo nodiadau mewn llawysgrifau eraill. Bu'n glaf yn 1590, a chanodd Edwart ap Raff englynion ar yr achlysur, a chywydd i ofyn sbectol drosto gan Huw Edwards o Ewri'r Tywysog Harri yn 1605.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau

*Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898–1910)

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, v, 287-327

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, v, 201

*Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 268, 261

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734262

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu